

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Yn cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau

Cyfres polisïau enghreifftiol

7 Canllawiau goruchwyllo enghreifftiol



Mae'n bosib nad yw cyfarfodydd goruchwyllo yn briodol ar gyfer pob math o wirfoddoli. Maent, fodd bynnag, yn sicrhau cyfle rheolaidd i gael sgwrs ddwy ffordd. Maent yn rhoi'r cyfle i wirfoddolwr neu oruchwylwr godi materion a all fod yn bersonol ac yn gyfrinachol. Maent yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r hyn a ddisgwylir a beth sy'n mynd ymlaen.

Mae'n ffordd bwysig o werthfawrogi'r cyfraniad a wneir gan wirfoddolwyr.

Diben goruchwyllo gwirfoddolwyr yw:

- darparu man rheolaidd i ystyried a thrafod rôl y gwirfoddolwr
- atgyfnerthu ethos, polisi ac ymarfer o fewn y mudiad
- cyfnewid gwybodaeth ac adborth perthnasol i'r rôl
- codi unrhyw faterion neu bryderon personol
- gweld a oes gan y gwirfoddolwr ddyheadau/amcanion penodol yn ymwneud â'i waith gwirfoddol, a sut y gellir cyflawni'r rhain
- darparu cymorth a sicrwydd i wirfoddolwyr
- sicrhau bod y mudiad yn gweithredu at y safonau gorau posib.

Fel goruchwylwr rwy'n cytuno i wneud y canlynol:

- rhoi amser penodol o'r neilltu ar gyfer goruchwyliaeth un wrth un, [efallai'r hoffech nodi pa mor aml y disgwylir i hyn ddigwydd]
- trefnu rhywle addas i gwrdd, gan sicrhau cyn lleied o ymyrraeth â phosib
- bod mor onest, clir, cefnogol a hyblyg â phosib
- trin agweddau personol ar y sgwrs yn gyfrinachol
- cadw cofnod ysgrifenedig byr o'r sesiwn

Fel gwirfoddolwr rwy'n cytuno i wneud y canlynol:

- mynd i sesiynau goruchwyllo, [efallai'r hoffech nodi pa mor aml y disgwylir i hyn ddigwydd]
- codi unrhyw faterion neu bryderon ar y cyfle cyntaf
- parchu'r cyfyngiadau a'r terfynau sy'n effeithio ar fy rôl wirfoddol

Cwestiynau Goruchwyllo Enghreifftiol

Sut wyt yn teimlo am dy rôl wirfoddol yn gyffredinol?

Beth sydd wedi bod yn dda?

- **unrhyw beth rwyd yn arbennig o falch ohono neu wedi'i fwynhau'n fawr?**

Beth sydd heb fod cystal?

- **Oes yna unrhyw beth rwyd yn ansicr yn ei gylch neu sy'n peri pryder i ti?**

A yw dy anghenion / dyheadau yn cael eu cyflawni?

- **Wyt ti'n teimlo dy fod yn gwneud gormod/rhy ychydig?**
- **Oes yna unrhyw rôl / gweithgareddau eraill yr hoffet roi cynnig arnynt?**

Oes yna unrhyw gymorth ychwanegol neu hyfforddiant a fyddai o gymorth i ti?

Wyt ti'n gyrru 'mlaen yn dda â phobl eraill yn y tîm/â chleientiaid?

Oes gen ti awgrymiadau sut y gellid gwneud pethau'n well neu'n wahanol?

Oes yna unrhyw gamau i ni gytuno arnynt, i'w hadolygu tro nesaf?

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH

Ffôn: 0800 2888 329 help@wcva.org.uk

Ffacs: 029 2043 1701 www.wcva.org.uk



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cyngorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Diweddarwyd: Mehefin 2014